HEB EU CADARNHAU

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 (yn electronig drwy Microsoft Teams a'i ffrydio'n fyw ar y we)**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol WHO ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Susan Harris | (SH) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Fu-Meng Khaw | (MK) | Dr Fu-Meng Khaw, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RB-W) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Sally Attwood | (SA) | Cyfarwyddwr Pontio Iechyd a Lles |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |

| | | |
|---|---|---|
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Leah Morantz | (LM) | Pennaeth Cyfathrebu |
| Jamie Topp | (JT) | Golygydd Digidol |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am*

**PHW 315/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio’r cyfarfod ar-lein. Nododd fod Susan Harris, o undeb UNITE, yn bresennol yn y cyfarfod am y tro cyntaf, yn cynrychioli Pwyllgor ochr Staff yr Undebau Llafur; estynnodd JW groeso cynnes iddi gan y Bwrdd.

Crynhodd JW rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol dros: bennu cyfeiriad strategol; llunio a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad. Roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y gallai pob aelod o staff ddod i'r gwaith a bod ar ei orau, heb ofni anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath.

Dywedodd JW fod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Chod Ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; roedd hyn i’w weld ar y wefan ac yn darparu ar gyfer darllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod. Roedd hyn yn gwneud y gorau o’r amser trafod a fyddai ar gael ar y diwrnod. Roedd y Bwrdd hefyd yn gweithio yn unol â Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gweithio Gyda'n Gilydd, Gydag Ymddiriedaeth a Pharch, i Wneud Gwahaniaeth

Nododd y Bwrdd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Judi Rhys a Verity Winn.

**PHW 316/2021 Datgan Buddiannau**

Ni ddatganodd aelodau'r bwrdd unrhyw fuddiannau’n ychwanegol at y rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**317/2021 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

HEB EU CADARNHAU

**PHW 317.1/2021 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Wrth gyflwyno’r adroddiad, tynnodd TC sylw at y pwyntiau canlynol:

- Cyfarfod cynhyrchiol, ynghyd â JW, ar 16 Tachwedd, gyda’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Trafodwyd ystod eang o faterion ac roedd y cyfarfod wedi adlewyrchu ehangder y gwaith sydd ar y gweill, neu'n cael ei gynllunio, a oedd yn adlewyrchu portffolio cyfan y Gweinidog; byddai cyfarfodydd rheolaidd pellach yn dilyn yn y flwyddyn ariannol i ddod.
- Cyfarfod, ynghyd â JW, ar 22 Tachwedd, gyda Chadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd (y Pwyllgor Iechyd). Trafodwyd tri Ymgynghoriad sydd gan y Pwyllgor Iechyd ar y gweill ar hyn o bryd: *Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai*; Effaith pandemig COVID-19, a’i reolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac *Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy’n aros am ddiagnosis neu driniaeth.* Mewn ymateb i'r ymgynghoriad olaf, dywedodd TC y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymateb i gais i ystyried y dangosfwrdd, y byddai IB yn gweithio arno. Roedd y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol ac roedd wedi cynnwys cynnig i gefnogi'r Pwyllgor ar bob agwedd ar iechyd y cyhoedd yn ei Gynllun Strategol 5 mlynedd sydd i ddod.

Diolchodd JW i bawb a fu'n ymwneud â chynhyrchu briffiau i gefnogi'r ddau gyfarfod; roedd y manylion wedi bod o gymorth mawr i lywio'r holl drafodaethau.

- Myfyriodd MK ar waith parhaus i ymateb i’r pandemig COVID-19, gyda niferoedd yr achosion yn dal yn gymharol uchel. Dywedodd fod cyngor ar lefel system yn parhau i esblygu, y diweddaraf ynghylch cymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru i gartrefi gofal wrth weithredu polisi Llywodraeth Cymru. Nododd MK hefyd fod y Model Gweithredu, a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd, wedi’i ddiwygio, yn seiliedig ar un system ganolog. Roedd y Weithdrefn Weithredu Safonol yn nodi'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau ar draws y system a byddai'r tîm yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i fonitro’r broses weithredu.

**Nododd** y Bwrdd yr Adroddiad a **chymerodd sicrwydd** ohono.

**PHW 317.2/2021 Adroddiad Integredig ar Berfformiad a Chyllid (Mis 7)**

Dechreuodd HG drwy egluro’r rhesymeg sy’n sail i’r newid yn fformat yr adroddiad. Roedd mecanweithiau atebolrwydd i asesu cyflawniad yn erbyn Cynlluniau Gweithredol yn cynnwys dau gyfarfod Tîm Gweithredol ar y Cyd rhwng Cyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol a swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain bellach wedi ailddechrau, ar ôl cael eu hatal am gyfnod; byddai'r Tîm Gweithredol yn cwrdd â thîm Llywodraeth Cymru ar 30 Tachwedd. Roedd y canllawiau ar fformat papurau’r Tîm Gweithredol yn cyfeirio at ddarparu tystiolaeth yn erbyn pedair prif thema: roedd adroddiad y Bwrdd yn adlewyrchu'r

HEB EU CADARNHAU

fformat hwn fel bod y Bwrdd llawn yn gweld y deunydd a gyflwynwyd. Y pedair thema oedd: Cynnal gweithlu iach a chynaliadwy; Sicrhau gwerth ac effaith; Ansawdd sefydliadol a mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel; a Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth.

Cyn ystyried y themâu, rhoddodd HG grynodeb o'r sefyllfa ariannol. Cadarnhaodd mai’r rhagolwg presennol oedd y byddai’r gyllideb wedi’i mantoli ar ddiwedd y flwyddyn ond nododd y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â gwahanol ffrydiau cyllido sy’n dod i mewn i'r sefydliad. Roedd yr asesiad diwedd blwyddyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol.

Tynnodd HG sylw'r Bwrdd at y ffaith y gallai'r dull graddol o recriwtio arwain at lithriad ar ddiwedd y flwyddyn; roedd wedi cytuno gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddefnyddio unrhyw lithriad at ddibenion sicrhau’r gwerth gorau ac i wrthbwyso'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Talodd HG deyrnged hefyd i’r holl staff, a barhaodd i weithio’n galed i gyflawni’r Cynllun yn ystod y flwyddyn, yn wyneb 20 mis o bwysau di-baid a oedd yn gysylltiedig ag ymateb i COVID-19.

Gwahoddodd HG gwestiynau ar y sefyllfa ariannol:

- Croesawodd DE y sefyllfa a ragwelir ar gyfer diwedd y flwyddyn a'r gwaith partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, i ddefnyddio adnoddau mewn modd a fyddai’n sicrhau’r gwerth gorau. Roedd hyn yn dangos aeddfedrwydd y berthynas waith.
- Croesawodd MM yr adroddiad hefyd gan ganmol pawb am eu trylwyredd ariannol parhaus; nododd fod y llithriad mewn perthynas â recriwtio yn adlewyrchu heriau cymdeithasol ehangach, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â’r sefydliad, wrth barhau ag ymdrechion sylweddol i recriwtio i'r swyddi sydd ar gael.
  Yna gofynnodd MM am eglurhad o lefel y gwariant disgwyliedig yn erbyn y dyraniad cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn, o ystyried yr ymrwymiad presennol o £1.5m o gyfanswm cyllideb o £8m. Dywedodd HG fod amseriad y cymeradwyaethau cyfalaf yn ystod y flwyddyn wedi effeithio ar y gwariant hyd yma; fodd bynnag, roedd yn hyderus o ymrwymiad dyraniad llawn a defnydd erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd cynlluniau yn destun rheolaeth unigol ac atgoffodd y Bwrdd fod nifer o gynlluniau wedi dod i fodolaeth yn ystod y flwyddyn; roedd y staff a oedd yn gysylltiedig â nhw yn gweithio'n galed i gyflawni yn erbyn y gwariant a oedd ar gael.

Gwahoddodd HG yr Arweinwyr Gweithredol i dywys y Bwrdd drwy’r pedair thema:

<u>Thema 1: Cynnal gweithlu iach a chynaliadwy</u>
Nododd NL gyfradd salwch ac absenoldeb o 4.3% o gymharu â 3.5% y mis blaenorol. Roedd dadansoddiad manwl wedi nodi cynnydd mawr mewn gwasanaethau sgrinio, yn rhannol gysylltiedig â gofynion ynysu COVID-19. Y blaenamcan ar gyfer misoedd y gaeaf oedd 5%. Nododd welliannau mewn lefelau

HEB EU CADARNHAU

hyfforddiant statudol a gorfodol a hefyd yn yr arfarnu a wnaed; parhaodd y gwaith o ran llesiant staff ac o ran hyfforddi a datblygu'r gweithlu.

Nododd SG adroddiad cenedlaethol diweddar a oedd wedi tynnu sylw at effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a gofynnodd a allai'r cynnydd mewn salwch / absenoldeb staff fod yn rhannol gysylltiedig â hyn. Cyfeiriodd NL at yr Arolwg Staff sydd ar y gweill ar hyn o bryd; byddai hyn yn darparu gwybodaeth amser real; ychwanegodd MM y byddai'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn craffu'n fanwl ar y mater hwn, gan ystyried y cyfraddau salwch gwahaniaethol ar draws y cyfarwyddiaethau.

**Camau gweithredu: MM/NL**

Thema 2: Sicrhau gwerth ac effaith
Cadarnhaodd HG ei fod wedi ymdrin â'r holl bwyntiau amlwg yn ei sylwadau rhagarweiniol.

Thema 3: Ansawdd sefydliadol a mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel
Adroddodd MK ar y cynnydd da a wnaed o ran ailgychwyn y pum rhaglen sgrinio a gafodd eu gohirio ar ddechrau'r pandemig; byddai'r gostyngiad i 1m ar gyfer cadw pellter cymdeithasol yn helpu, yn enwedig gyda rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, o ystyried ei heriau penodol.

Oedodd MK a gwahodd cwestiynau:

- Nododd SH y cyfnod adfer o 36-48 mis ar gyfer sgrinio'r fron a gofynnodd am effaith hyn ar y rhai sy'n aros am eu hapwyntiadau sgrinio cyntaf. Rhoddodd MK esboniad o'r ffordd y rheolir yr ôl-groniad, yn seiliedig ar feini prawf asesu risg trylwyr.
- Tynnodd DE sylw at y cyfleoedd wrth ailgychwyn gwasanaethau sgrinio i ystyried a oedd y mesurau presennol a ddefnyddir i gofnodi perfformiad yn parhau i fod yn briodol neu a ellid ychwanegu dangosyddion amgen / ychwanegol ar yr adeg hon. Roedd MK yn cefnogi adolygiad o'r metrigau sydd ar waith ar hyn o bryd a chadarnhaodd y byddai'n ystyried hyn ymhellach.

**Camau gweithredu: MK**

- Nododd KE rôl y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella o ran craffu ar y rhaglenni sgrinio; o ddechrau'r pandemig, roedd pob cyfarfod wedi cynnwys gwaith craffu manwl ac roedd gwybodaeth ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor. Llongyfarchodd KE y timau sgrinio ar eu gwaith rhagorol o ran adferiad a nododd y cyfleoedd i ddatblygu metrigau ychwanegol i adlewyrchu anghydraddoldebau, gwelliant ac arloesi ym maes iechyd. Roedd JW wedi ymuno â chyfarfod mwyaf diweddar y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, ble y mynegodd ganmoliaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r holl staff sgrinio am

HEB EU CADARNHAU

ailgychwyn y pum rhaglen a ohiriwyd ac am gynnal y tair rhaglen arall drwy gydol y pandemig.

Soniodd MK am berfformiad cadarnhaol y gwasanaethau microbioleg yn gyffredinol, gyda rhai uchafbwyntiau a chyfnodau anodd yn ymwneud â staffio a logisteg. Tynnodd sylw at lwyddiannau'r Uned Genomeg Pathogen, gan ymfalchïo yn y ffaith bod Cymru wedi cadarnhau ei hun fel arweinydd byd ym maes genomeg pathogenau clinigol. Roedd perfformiad yr Uned hyd yn oed yn fwy rhyfeddol o ystyried ei maint. Nododd y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd i gryfhau'r gallu hwn ymhellach.

I orffen, cyfeiriodd MK at y sefyllfa bresennol o ran Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, a'r gefnogaeth system gyfan gan Eleri Davies a'i thîm.

- Croesawodd SG yr adroddiad cadarnhaol a llongyfarchodd bawb a fu'n ymwneud â datblygu'r Uned Genomeg Pathogen; roedd hwn yn gyflawniad mawr ac yn cynnig cyfleoedd cyffrous ar gyfer y dyfodol. Aeth ymlaen i wneud sylwadau ar y cynnydd mewn heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a gofynnodd am esboniad.

Wrth ymateb i hynny, ategodd MK y rôl hanfodol yr oedd genomeg pathogen wedi'i chwarae yn yr ymateb i COVID-19, yn enwedig wrth nodi Amrywiolion sy'n Peri Pryder. O ran heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gwnaeth MK sylw ar y newidiadau sylweddol yn y modd y darparwyd gwasanaethau dros yr 20 mis diwethaf, ac a allai fod wedi effeithio ar y ffigurau; roedd Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth uchel i'r mater hwn ac roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymorth arbenigol ar draws y system i leihau trosglwyddiad yr heintiau hyn, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o COVID-19.

Rhoddodd RB-W drosolwg o ddangosyddion ansawdd y pryderon a digwyddiadau, gan roi sylwadau'n benodol ar nifer y digwyddiadau, y rhai sy'n dal i fod ar agor ar ôl 30 diwrnod, y datganiad dim i'w adrodd mewn perthynas â Digwyddiadau y gellir eu Hadrodd yn Genedlaethol a'r un Digwyddiad Dim Syndod. Mae manylion yr holl ddigwyddiadau i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad.

Yna adroddodd RB-W ar y gydymffurfiaeth dreigl fisol a deuddeng misol ar gyfer cwynion (gellir gweld y manylion hefyd yn Atodiad A) cyn troi at y themâu allweddol a godod o nifer fach o gwynion a gofnodwyd yn y cyfnod adrodd hwn. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r pryderon hyn yn ymwneud â chryfhau'r sicrwydd ansawdd ar gyfer cyfathrebu a ddefnyddir ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain, ac ieithoedd eraill, ynghyd ag un gŵyn a gofnodwyd ynghylch pryderon defnyddwyr gwasanaethau am gydraddoldeb a chynwysoldeb. Amlinellodd RB-W y gwaith sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn. I orffen, nododd fod nifer y canmoliaethau a dderbyniwyd yn llawer uwch na nifer y pryderon.

HEB EU CADARNHAU

Gwahoddodd RB-W gwestiynau:

- Mynegodd KE ei phryder ynghylch y themâu yn ymwneud ag iaith a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau; cododd y posibilrwydd y byddai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ystyried y mater hwn ymhellach, o ystyried ei fod yn ymwneud ag ansawdd gwasanaethau. Cadarnhaodd RB-W y gallai canlyniad yr ymchwiliad gynnwys proses ddiwygiedig i gymeradwyo gwybodaeth i'r cyhoedd. Gofynnodd JW i KE a RB-W gynnwys ystyriaeth bellach o'r mater ar agenda nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

**Camau gweithredu: KE/ RB-W**

O ran rheoli risg, atgoffodd RB-W y Bwrdd, fod cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2021 yn dilyn adolygiad, wedi dod i gytundeb ar bum risg strategol, wedi'u lleihau i bedair yng nghyfarfod mis Medi, gyda risg Strategol 2 yn cael ei hailddynodi'n risg gorfforaethol. Roedd cyfnod arall o ailasesu bellach ar y gweill, gan gynnwys ystyried y rheolaeth orau o ran risgiau'n ymwneud ag arloesi a gwella. Mewn ymateb i ymholiad gan JW, cadarnhaodd RB-W y byddai modd cyflwyno adroddiad diweddaru i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2022.

**Camau gweithredu: RB-W**

<u>Thema 4: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth.</u>
Gan gyfeirio at Gynllun Gweithredol 2021/22, croesawodd HG y cynnydd cadarnhaol a wnaed gan dynnu sylw eto at y pwysau eithafol yr oedd y sefydliad yn parhau i'w hwynebu. Dywedodd wrth y Bwrdd am y gwaith a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer pedwar mis olaf y flwyddyn i nodi'r effaith barhaus a'r pwysau ar staff a sut i fynd i'r afael â'r rhain ymhellach. Croesawodd TC hyn a nododd fod llawer o staff wedi ymlâdd yn dilyn misoedd lawer o bwysau, yn fwyaf diweddar o ganlyniad i ailgychwyn gwasanaethau, ac ar yr un pryd parhau i ymateb yn briodol i COVID-19. Gallai hyn olygu symud rhywfaint o waith wedi'i gynllunio i'r flwyddyn 2022/23, lle y bo'n briodol.

- Roedd DE yn cefnogi'r symudiad tuag at ddull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ond roedd yn rhaid i hyn fod yn ystyrlon a dylid ei gadw mor syml â phosibl. Cytunodd IB fod yn rhaid i'r defnydd o ddulliau mesur canlyniadau fod yn ddoeth ac y dylai fod ganddynt ffocws.
- Cydnabu MM yr angen posibl i drosglwyddo gwaith i 2022-23 a gofynnodd i'r Bwrdd gael gwybod y manylion; gofynnodd am gadarnhad y byddai unrhyw drosglwyddiad yn cael ei asesu yn erbyn proses flaenoriaethu. Rhoddodd HG y cadarnhad hwnnw a chytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn unol â hynny.

**Camau gweithredu: HG**

HEB EU CADARNHAU

Cadarnhaodd HG hefyd y bwriad i barhau â'r agwedd thematig a nodir yn yr adroddiad hwn; gofynnodd JW i Gadeiryddion y Pwyllgorau adolygu agendâu eu pwyllgorau, i sicrhau eu bod yn ymdrin yn briodol â'r themâu.

**Camau gweithredu: KE;DE;MM;SG.**

Daeth JW â’r drafodaeth i ben drwy ddiolch i bawb a fu’n ymwneud â chynhyrchu adroddiad sy’n arwain y sector a’r Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad cysylltiedig a oedd yn parhau i godi’r drafodaeth o amgylch y Bwrdd. Yn y cyfarfod Tîm Gweithredol ar y Cyd sydd i ddod, byddai’r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gallu cadarnhau bod y Bwrdd llawn wedi sicrhau ei hun ynghylch:

- y risgiau o ran y gweithlu sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredol 2021/22, a'r camau lliniaru, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni sgrinio;
- adolygu rhagolygon diwedd y flwyddyn a rheoli cyllid sy’n gysylltiedig â COVID-19;
- cynnwys dulliau arloesol a thrawsnewidiol yn y Cynllun o ran adfer, a'r camau sydd ar waith i wneud y gorau o'r rhain;
- nodi rôl arwain systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd ag enghreifftiau o hyn;
- y cynlluniau ar gyfer ailgychwyn y pum rhaglen sgrinio a ohiriwyd yn gynharach yn y pandemig.

Gofynnodd y Bwrdd hefyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol bwysleisio'r pwysau parhaus a oedd ar yr holl staff, yn sgil gorfod ailgychwyn gwasanaethau a pharhau â’r ymateb i COVID-19; 20 mis ar ôl i’r pandemig ddechrau, roedd y staff wedi ymlâdd ac, eto, yn parhau i ymdrechu i amddiffyn iechyd pobl Cymru a darparu gwasanaethau o safon uchel. Roedd y Bwrdd yn ymfalchïo yn holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ac am i swyddogion Llywodraeth Cymru nodi hynny.

**Camau gweithredu: TC**

**Nododd** y Bwrdd yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad a Chyllid a **chymerodd sicrwydd** ohono, gan ganmol pawb a fu'n ymwneud â'i lunio.

| | |
|---|---|
| **PHW 317.3/2021** | **Egwyl** |
| **PHW 317.4/2021** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad Gan Gadeiryddion y Pwyllgorau** |

Rhoddodd MM y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl, gan gyfeirio'n ôl at y trafodaethau ar faterion y gweithlu yn gynharach yn y cyfarfod. Gwnaeth y Pwyllgor ddefnydd effeithiol o'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad i lywio ei drafodaethau a chroesawodd y datblygiad parhaus o wybodaeth am y gweithlu. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad manylach o faterion recriwtio’r gweithlu; dylai hyn gynnwys nid yn unig ddadansoddiad o geisiadau ond hefyd adolygiad o hyfforddiant ac aelodaeth paneli, er mwyn osgoi rhagfarn a hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac

HEB EU CADARNHAU

amrywiaeth. Byddai'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n fawr ar y maes hwn yn y misoedd nesaf.

**Camau gweithredu: MM/NL**

Rhoddodd KE ddiweddariad ar gyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar 10 Tachwedd. Cyfeiriodd at y trafodaethau yn gynharach yn y cyfarfod ar raglenni sgrinio a'r eitem ar yr agenda ar gynllunio ar gyfer y gaeaf; roedd y Pwyllgor wedi trafod y ddau fater yn fanwl a chroesawodd y ffocws ychwanegol ar lefel Bwrdd llawn.

Cododd KE a MM y mater o Bwyllgorau'n ystyried ffyrdd o wneud y defnydd gorau o'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad yn ystod eu cyfarfodydd a thynnodd sylw at y gwaith sydd ar y gweill ar hyn.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariadau a ddarparwyd a **chymerodd sicrwydd** ohonynt.

**PHW 317.5/2021 Diweddariad ar Gynllunio ar gyfer y Gaeaf**

Cyfeiriodd MK at nifer o bapurau a oedd gyda'i gilydd yn cefnogi'r eitem hon ar yr agenda, gan gynnwys: *Cynllun Rheoli Coronafeirws Llywodraeth Cymru*, *Cynllun ymateb iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru i salwch anadlol: gaeaf 2021-22*; a *Chynllun Gaeaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru 2021-22*.

Yna rhoddodd MK grynodeb o rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain systemau a darparu gwasanaethau; roedd hyn yn cynnwys ymateb acíwt parhaus i COVID-19, darparu amrywiaeth o gymorth i Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, darparu gwasanaethau diogelu iechyd a microbioleg, cyfrifoldebau brechu ac imiwneiddio, gwyliadwriaeth a rhannu gwybodaeth, dilyniannu genom cyfan i gefnogi'r rhaglen COVID-19 a'r ffliw, cyngor ac arweiniad arbenigol ar atal a rheoli heintiau, ac ymateb i'r niwed ehangach sy'n wynebu'r genedl. Roedd cynhyrchu'r 'Model Gweithredu', yr Ymateb Diogelu Iechyd yn enghraifft allweddol o arweinyddiaeth system ar waith.

Yna rhoddodd MK wahoddiad i IB a JB ychwanegu manylion am gefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r GIG yn ystod Gaeaf 2021/22.

Amlinellodd IB y gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu dangosfwrdd yn canolbwyntio ar bwysau ar y system iechyd cyhoeddus; byddai hyn yn rhoi trosolwg 'sedd gyrrwr' a byddai'n debygol o gynnwys: COVID-19 a chlefydau heintus eraill; baich afiechyd; ymddygiad iechyd y boblogaeth; pwysau ar y system gofal iechyd; penderfynyddion ehangach; elfennau rhagfynegol lle bo hynny'n ymarferol.

Amlinellodd JB y cymorth y gallai Gwelliant Cymru ei gynnig o ran cynllunio ar gyfer y Gaeaf a chymorth system ehangach, drwy: gymorth hyfforddi i

HEB EU CADARNHAU

sefydliadau ar draws y GIG, mewn perthynas â rheoli llif cleifion a heriau diogelwch cleifion; cynorthwyo gofal cymdeithasol gyda materion continwwm gofal; darparu cyngor gwella i raglenni ar lefel genedlaethol. Ceisiodd gryfhau'r berthynas waith gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'r sector yn ehangach.

Diolchodd JW i MK, IB a JB am eu heglurhad cynhwysfawr o'r rôl arweinyddiaeth system gyfan yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei chyflawni mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y gaeaf, yn ogystal â'i rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau. Yna gwahoddodd gwestiynau neu sylwadau.

- Holodd MM am effaith y nifer o bobl sydd heb eu brechu a'r rhai sy'n gwrthod cael eu brechu; gofynnodd a oedd hyn yn broblem fawr yng Nghymru. Dywedodd MK fod y nifer sy'n cael eu brechu a thegwch yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a thrwy Grŵp Brechu Teg Cymru; brechu oedd yr amddiffyniad cryfaf o hyd yn erbyn COVID-19, gyda thystiolaeth glir ei fod yn atal afiechyd difrifol a oedd yn arwain at yr angen i fynd i'r ysbyty. Roedd gan y gwledydd hynny a brofodd bedwaredd don gyfraddau brechu is ac roedd eu profiad yn gysylltiedig, yn rhannol, â'r ffactor hwn.

  Dywedodd HG y gallai LM ddarparu nodyn briffio byr i'r Bwrdd ar yr ymgyrch *Mae Brechu yn Achub Bywydau*, y negeseuon allweddol a'r mater o 'chwalu'r mythau'. Cadarnhaodd JW y byddai hyn o gymorth mawr.

**Camau gweithredu: LM**

- O ran dylanwad y cyfryngau cymdeithasol ar betruster brechu, gwnaeth IB sylw ar y ffaith bod llawer o bostiadau gwrth-frechlyn y cyfryngau cymdeithasol i'w priodoli i chwe chyfrif trydar. Nododd y gwaith sydd ar y gweill i geisio olrhain dylanwad negeseuon y cyfryngau cymdeithasol ar y nifer sy'n cael y brechlyn ar gyfer grwpiau allweddol, er enghraifft menywod beichiog.
- Tynnodd DC sylw at 'gyrhaeddiad' yr ymgyrch ddigidol fel canran o'r boblogaeth gyfan; gofynnodd a oedd ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol yn unig yn ddigon ystwyth i fynd i'r afael â phryderon a dylanwadu ar ymddygiad. Cytunodd MK fod niferoedd y cyfryngau cymdeithasol yn fach a'i bod yn bwysig gosod hyn yng nghyd-destun ymgyrch ehangach. Nododd y gwersi a ddysgwyd o ymgyrchoedd blaenorol ffliw y gaeaf o ran y dulliau sydd fwyaf tebygol o gael yr effaith fwyaf; roedd y rhain yn cynnwys defnyddio ffynonellau gwybodaeth credadwy y gellir ymddiried ynddynt.
- Gofynnodd SG a fyddai data cydraddoldeb ar gael, yn y dyfodol, ar gyfer pob clefyd y gellir ei atal yn yr un modd ag yr oedd ar gyfer COVID-19. Cadarnhaodd MK fod y Rhaglen Brechu Teg yn adolygu anghydraddoldebau mewn ffordd sydd wedi'i thargedu, gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau BAME a'r nifer sy'n manteisio mewn gwahanol fandiau economaidd-gymdeithasol.

HEB EU CADARNHAU

- Cydnabu DE rôl allweddol Gwelliant Cymru yn yr ymateb i COVID-19 ac wrth ganfod ffyrdd newydd o weithio. Nododd y potensial sylweddol na fanteisiwyd arno ar gyfer camau datblygu a gwella pellach a gofynnodd am adnoddau ar lefel genedlaethol. Nododd JB y ceisiadau cynyddol am gymorth gan bartneriaid y GIG a'r angen i ystyried a allai'r tîm presennol ddarparu ar gyfer y galw cynyddol.
- Dywedodd KE fod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi ystyried a oedd iechyd y cyhoedd ar yr adeg o ddod allan o COVID-19 yn foment allweddol a sut y gellid manteisio i'r eithaf ar hyn i hybu lefel uwch o lythrennedd iechyd ac ysgogi ymddygiadau iechyd cadarnhaol. Cyfeiriodd JW at y cysyniad o ‘gyfle dysgu digymell' a gwahoddodd MB i roi sylwadau; cytunodd a nododd y cyfleoedd i gael mynediad at 'gynulleidfa barod'; pwysleisiodd hefyd yr angen am eglurder ynghylch a oedd y dull gweithredu yn un eang ym maes iechyd y cyhoedd neu'n canolbwyntio ar hybu iechyd. Roedd MB yn gryf o'r farn y dylid defnyddio'r cyfle hwn i ehangu'r drafodaeth am iechyd y cyhoedd.

**Nododd** y Bwrdd adroddiadau cynllunio ar gyfer y gaeaf a **chymerodd sicrwydd** o'r trafodaethau manwl, gan ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â chasglu’r deunydd ynghyd. Roedd hwn yn nodi'n glir rôl hanfodol Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran darparu gwasanaeth, a'i rôl o ran arwain systemau.

**PHW 317.6/2021 — Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd**

Atgoffodd HB y Bwrdd bod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd wedi’i ohirio yn ystod cam cynharach y pandemig; yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021, roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo ei ailgychwyn. Roedd cyfarfod cyntaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Rhagfyr, i adrodd yn ôl i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2022. Wrth baratoi ar gyfer hyn, roedd y Cylch Gorchwyl wedi bod yn destun adolygiad, fel y nodir yn yr adroddiad.

Amlinellodd HB hefyd, yn dilyn adolygiad, yr argymhellwyd y dylid dyrannu seiberddiogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Pe bai’n cael ei gymeradwyo, byddai angen diwygio cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y Cylch Gorchwyl diwygiedig a **chymeradwyodd** hefyd ddyrannu seiberddiogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol; ac y byddai'r cylch gorchwyl ar ei gyfer yn cael ei ddiweddaru.

**Camau gweithredu: HB**

**PHW 318/2021 — Eitemau i'w Cymeradwyo**

**PHW 318.1/2021 — Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021**

Wrth gyflwyno'r eitem hon, manteisiodd JW ar y cyfle i gofnodi ei diolch i KE am weithredu fel cadeirydd yn ystod ei habsenoldeb diweddar, rôl yr oedd KE wedi'i chyflawni’n rhagorol.

HEB EU CADARNHAU

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyodd** y Bwrdd y **cofnodion** fel cofnod cywir o'r cyfarfod a **nodwyd** y Camau Gweithredu. | |
| **PHW 319/2021** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PHW 319.1/2021** | **Adroddiad Diweddaru ar y Rhwydwaith Staff** |
| **Nododd** y Bwrdd adroddiad diweddaru'r Rhwydwaith Staff ynghylch gwaith sydd ar y gweill, gydag adroddiad llawn wedi'i amserlennu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022. | |
| **PHW 320/2021** | **Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd** |
| Trefnwyd cyfarfod nesaf y Bwrdd ar gyfer 27 Ionawr 2022. | |
| **PHW 321/2021** | **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12.18pm | |

HEB EU CADARNHAU